

Tyred, Iesu, i'r anialwch

Caneuon Ffydd: Rhif 730

Tyred, Iesu, i'r anialwch,
 at bechadur gwael ei lun,
 ganwaith ddrysodd mewn rhyw rwydau –
 rhwydau weithiodd ef ei hun;
 llosg fieri sydd o'm cwmpas,
 dod fi i sefyll ar fy nhraed,
 moes dy law, ac arwain drosodd
 f'enaid gwan i dir ei wlad.

Manna nefol sy arna'i eisiau,
 dŵr rhedegog, gloyw, byw
 sydd yn tarddu o dan riniog
 temel sanctaidd, bur fy Nuw;
 golchi'r aflan, cannu'r duaf,
 gwneud yr euog brwnt yn lân;
 ti gei'r clod ryw fyrdd o oesoedd
 wedi i'r ddaear fynd yn dân.

Ar dy allu 'rwy'n ymddiried:
 mi anturiaf, doed a ddêl,
 dreiddio drwy'r afonydd dyfnion,
 mae dy eiriau oll dan sêl;
 fyth ni fetha a gredo ynot,
 ni bu un erioed yn ôl;
 mi â 'mlaen, a doed a ddelo,
 graig a thyle, ar dy ôl.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Erbyn cyhoeddi'r emyn hwn sydd yn cael ei ddyfynnu o gasgliad mawreddog Pantycelyn, *Ffarwel Weledig, Groesaw Anweledig Bethau*, a ymddangosodd yn dair rhan rhwng 1763 a 1769, yr oedd yr emynydd yn canu fel na chanodd erioed o'r blaen. Yr oedd Methodistiaeth Cymru wedi ei thanio eto gan wres Diwygiad Llangeitho a dorrodd allan ym 1762. Dyma ddiwygiad na fyddai'n oeri am flynyddoedd ac a olygodd os oedd Williams yn cynhyrchu emynau fel rhaedrau o fawl, y naill ar ôl y llall, yna roedd yna bobl ledled Cymru, dychweledigion y seiadau, oedd yn awchu amdanyn nhw ac yn barod i'w canu.

Roedd gan y mudiad Methodistaidd ei fardd a oedd yn hyderus, yn brofiadol ac, o ran ei dechneg, yn gallu mynegi ei feddwl a'i brofiad ei hun gan ymgorffori profiad cynifer o'i bobl, y

Methodistiaid. Fe gafodd Cymru farddoniaeth yn y cyfnod yma i fynd â'i gwynt hi. Barddoniaeth ysbrydoledig ydoedd, ac fel y dywedodd Williams yn ei ragymadrodd i ail ran *Ffarwel Weledig*, lle cwynai i raddau fod gormod o emynau sâl yn cael eu cynhyrchu, na ddylai'r beirdd lunio 'un hymn fyth nes bont yn teimlo eu heneidiau yn agos i'r nef, tan awelon yr Ysbyrd Glân'.

Caiff Williams Pantycelyn ei hun mewn anialwch neu anial dir yn aml. Mae'r anialwch yn cynrychioli hyn o fyd y cawn ein gosod ynddo, ac fel roedd yr anialwch yn lle i deithio trwyddo yn hanes yr Hebreaid yn yr Ecsodus, neu yn lle i fod ynddo am gyfnod yn unig fel ym Mabilon pan gaethgludwyd y genedl i'r fan honno, lle i aros ynddo dros amser ac i dreulio taith bywyd ynddo yw'r byd hwn i Williams, gan nad ydy ei obaith ym mhethau'r ddaear, ond yn y nefoedd ei hun, neu'r Ganaan dragwyddol. Gellid beirniadu Pantycelyn, fel y gwnaeth llawer, am ei bortreadu ei hun ormod fel pererin arallfydol, ond nid yw'n bererin encilgar, gan fod ei fys yn sicr iawn ar byls yr oes yr oedd yn byw ynddi a'i wybodaeth am bethau'r byd hwn yn syfrdanol!

Gydag yntau â'i draed yn sicr ar y ddaear, felly, fe wyddai Williams, fel y gwyddai Paul o'i flaen, mai 'yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni' (Phil. 3:20). Am gymorth y nef ei hun y gofynna yn ei emyn: 'Tyred, Iesu, i'r anialwch'. Gofynna iddo losgi'r mieri, y pechodau a'r tentasiynau sydd yn ei gaethiwo gymaint yn ei fywyd a'i arwain drosodd 'i dir ei wlad'. Gofynna am fanna o'r nefoedd ei hun i'w gynnal ar daith bywyd. Ymlaen mae'r nod, nid yn unrhyw le ar y ddaear hon, a Duw ei hun sydd yn arwain fel yr arweiniodd genedl yr Hebreaid o'r Aifft gynt. Beth bynnag fydd yn rhwystrau ar y ffordd (craig a thyle), mae'n addo dilyn yr arweiniad a gaiff gan Dduw ar y daith, arweiniad sydd yn ei Air 'mae dy eiriau oll dan sêl'.

Mae taith bywyd i Williams yn un o gyffro a menter, gan nad yw'n aros yn llonydd ddim, ond mae hefyd yn un o ymddiriedaeth lwyrr wrth iddo ddilyn yr unig Un y gall fod yn sicr o'i arweiniad y tu yma i'r nefoedd.

GWEDDI

O Dad, caf fy nghyffroi wrth feddwl fy mod, er yn byw yma yn y gymuned lle yr wyt ti wedi fy ngosod, yn ddinesydd y nef mewn gwirionedd. Gwna fi'n un sy'n barod i fentro ar daith bywyd yn unig o dan dy arweiniad di. Gyda'n gilydd cawn wynebu pob 'craig a thyle' a goroesi. Yn enw Iesu. Amen.